**NEWYDDION**

# barcud

**GWANWYN 2024**





## Prif Weithredwr Newydd

Wrth i ni fynd i'r wasg, mae Barcud yn edrych ymlaen at ddiwrnod cyntaf ein Prif Weithredwr newydd, sef Jason Jones. Yn dilyn proses ddewis hir, bydd Jason yn dechrau ar y swydd ym mis Mai 2024.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bob un o aelodau Grŵp Monitro Barcud ac i'n tenantiaid am eu cymorth drwy gydol y broses recriwtio. Roedd eu mewnbwn a'u hadborth yn allweddol i sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r person cywir ar gyfer y Gymdeithas.

Gyda Jason Jones wrth y llyw a gyda chefnogaeth barhaus ein rhanddeiliaid, bydd Barcud yn adeiladu ar ei lwyddiannau ac yn cyflawni mwy fyth yn y dyfodol.

## I Gysylltu â Barcud

### Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030
Pwyswch 1 am Gymraeg
Pwyswch 2 am Saesnag

### Drwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

### Ar-Lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' sydd ar ein gwefan

Barcud

@taibarcud

post@barcud.cymru
(ymholiadau cyffredinol)

consent@barcud.cymru
(unrhyw gwestiynau am gydsyniad)

## Arolygon Llywodraeth Cymru

Hoffem ddiolch i'r holl denantiaid a wnaeth gwblhau'r arolygon byr blynyddol o fodlonrwydd, a gynhaliwyd gennym ar ran Llywodraeth Cymru. Gofynnir i ni drefnu'r rhain bob blwyddyn er mwyn gweld beth yw barn ein tenantiaid am ein gwasanaethau. Fel yr addawyd, mae canlyniadau'r arolygon a gynhaliwyd gennym i'w gweld yn y llythyr newyddion hwn. Os hoffech gymharu perfformiad Barcud â pherfformiad cymdeithasau tai eraill yng Nghymru, bydd y manylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (Hafan | LLYW.CYMRU) pan fydd yr holl ganlyniadau o bob cwr o Gymru wedi'u crynhoi.

## Yn Galw ar Denantiaid Barcud

Mae cyfraniad tenantiaid wrth wraidd pob dim rydym yn ei wneud.

Ydych chi eisiau cyfrannu?

Cysylltwch â Sue Thomas (Uwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid) 0300 111 3030

## Digwyddiad Cymdeithasol ym Maes Arthur

Yn dilyn cais gan denantiaid ym Maes Arthur, Aberystwyth, cafodd cyfarfod anffurfiol ei gynnal ym mis Tachwedd y drws nesaf i Glwb Pêl-droed Aberystwyth. Cafodd y cyfarfod ei drefnu i sgwrsio am sefydlu grŵp tenantiaid. Awgrymodd tenant hynny er mwyn gweld a fyddai gan denantiaid eraill ym Maes Arthur ddiddordeb mewn trefnu digwyddiadau cymdeithasol, tripiau a diwrnodau allan gyda chyd-denantiaid, a diddordeb mewn cymryd rhan ynddynt. Roedd yn gyfarfod braf lle cafwyd llawer o syniadau am sut a phryd y gallent gwrdd ac y gallent gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill a drefnir mewn mannau eraill yn yr ardal.

# Diweddariad gan Grŵp Monitro Barcud

Henffych, gyd-denantiaid.

Mae'n wanwyn, diolch byth, a gobeithio y gallwn edrych ymlaen at dywydd mwy cynnes a sych. Wnes i ddweud "gobeithio", ond rwyf wastad yn edrych ar yr ochr olau i bethau.

Ym mis Rhagfyr, cyfarfu swyddogion y Grŵp Monitro Tenantiaid â Bwrdd Grŵp Barcud a'r Cyfarwyddwyr er mwyn trafod Cynnwys Tenantiaid a thrafod yr heriau yr ydym ni, y tenantiaid, yn eu hwynebu. Rhoddodd David Wilton, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru), gyflwyniad ar bwysigrwydd Cynnwys Tenantiaid ac ar ddulliau newydd o hybu cyfranogiad. Soniodd David hefyd am lawer o bryderon cyffredin sydd gan denantiaid ar draws Cymru. Roedd llawer o'r pryderon hynny'n gyfarwydd i swyddogion y Grŵp Monitro, ac rydym wedi ceisio rhoi sylw iddynt mewn rhifynnau blaenorol o'r llythyr newyddion hwn. Hoffem sôn am rai ohonynt eto.

## *Cyfreithwyr sy'n ymdrin â hawliadau ynghylch eiddo sydd mewn cyflwr gwael.*

Mae cynnydd enfawr wedi bod yn nifer yr hysbysebion "Dim Llwyddiant, Dim Ffi" sydd ar y teledu ac ar gyfryngau cymdeithasol.

1 Mae llawer o denantiaid sy'n defnyddio'r cwmnïau hyn yn darganfod, os ydynt yn llwyddo, bod y rhan fwyaf o'r iawndal yn cael ei ddefnyddio i dalu ffïoedd y cwmnïau. Mewn rhai achosion, nid yw'r iawndal yn ddigon i dalu'r ffïoedd i gyd ac mae'r tenantiaid yn gorfod talu'r arian sy'n weddill, gan gynnwys taliadau llog, o'u poced eu hunain.

2 Os byddwch yn darparu eich manylion cyswllt drwy unrhyw un o'r amryw hysbysebion sydd ar gyfryngau cymdeithasol, caiff eich manylion eu rhannu â chronfa ddata o gyfreithwyr sy'n ymdrin â hawliadau ynghylch eiddo sydd mewn cyflwr gwael, ac mae'n bosibl y cewch eich llethu â galwadau ffôn, negeseuon testun a negeseuon ebost.

3 Dylech gysylltu â Barcud i roi gwybod bod angen atgyweirio rhywbeth, ac yn dibynnu ar natur y gwaith dylai Barcud ei gwblhau cyn pen cyfnod penodol. Mae eich rhent yn talu am waith atgyweirio.

4 Os ydych wedi rhoi gwybod bod angen atgyweirio rhywbeth ac nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau cyn pen y cyfnod a nodwyd wrthych, cysylltwch â Barcud unwaith eto.

5 Ni ellir eich troi allan o'ch cartref ac ni ellir eich trin yn annheg oherwydd eich bod wedi rhoi gwybod bod angen atgyweirio rhywbeth, neu oherwydd eich bod wedi gofyn eilwaith am i'r gwaith atgyweirio gael ei wneud. Dyna'r gyfraith.

## *Sylwadau, canmoliaeth a chwynion.*

1 Ni ellir eich troi allan o'ch cartref ac ni ellir eich trin yn annheg oherwydd eich bod wedi cwyno. Dyna'r gyfraith.

2 Mae cwynion yn helpu Barcud i nodi meysydd lle mae angen gwella ei wasanaethau.

3 Rhaid bod Barcud yn gwybod am bryder cyn y gall fynd i'r afael ag ef.

4 Mae cwynion yn helpu Barcud i wella ei wasanaethau ar gyfer pob un o'i denantiaid.

5 Unwaith eto, ni ellir eich troi allan o'ch cartref ac ni ellir eich trin yn annheg oherwydd eich bod wedi cwyno. Gallai eich cwyn wella gwasanaethau i denantiaid eraill, sydd yr un mor bwysig.

Cofiwch fy mod i ac aelodau'r Grŵp Monitro yn denantiaid fel chi. Drwy ein gwaith ymgysylltu â thenantiaid yn lleol ac yn genedlaethol, rydym yn gwybod mor bwysig yw'r ddwy eitem uchod i bob tenant. Rydym yn gobeithio bod y wybodaeth yn ddefnyddiol.

Ar nodyn ysgafnach, drwy gydol eleni bydd y Grŵp Monitro yn cynnal ei ddigwyddiadau cyhoeddus arferol ac yn gweithio ar rai prosiectau newydd. Fel yn achos y broses ddiweddar i recriwtio Prif Weithredwr, rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â thenantiaid nad ydynt yn ymwneud â'r Grŵp Monitro ac rydym yn croesawu cyfleoedd i wneud hynny.

Yn olaf, cofiwch fynd i wefan Barcud i fwrw golwg ar Adroddiad Blynyddol y Grŵp Monitro ac ar ein canllaw i'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn cynrychioli eich buddiannau chi a buddiannau ein cyd-denantiaid. Os hoffech gwrdd â ni neu gael eich cynnwys yng ngwaith Barcud, cysylltwch â Sue Thomas ac Alisa Cakebread ar 0300 111 3030.



Cymerwch ofal a phob hwyl.


Paul Clasby

Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud.

# Digwyddiadau Cwrdd â'r Tîm

Yn ystod haf y llynedd, gwnaethom gynnal digwyddiadau "Cwrdd â'r Tîm" mewn amryw leoliadau ar hyd a lled Powys a Ceredigion. Roedd staff ar gael ym mhob digwyddiad i bobl sgwrsio â nhw, o'r Tîm Tai, y Tîm Cynnal a Chadw, y Tîm Cynnwys Tenantiaid a'r Tîm Arwain. Diolch i'r tenantiaid a ddaeth i'n gweld ac i sgwrsio â ni. Yn ôl y tenantiaid a alwodd heibio, roedd y cyfarfodydd yn ddefnyddiol, yn enwedig gan eu bod yn cael eu cynnal mor lleol. Byddwn yn cynnal digwyddiadau "Cwrdd â'r Tîm" unwaith eto yn ystod haf eleni. Pan fydd y dyddiadau a'r lleoliadau wedi'u cadarnhau, byddwn yn rhannu'r manylion â thenantiaid yn yr ardaloedd dan sylw.

Os hoffech gael digwyddiad "Cwrdd â'r Tîm" ar eich ystad chi, mae croeso i chi gysylltu – drwy anfon ebost i post@barcud.cymru neu ffonio 0300 111 3030.




## Rhoddion i Ganolfan Argyfwng Teulu Maldwyn

Yn ddiweddar rhoddodd Barcud dŷ chwarae, corlan chwarae, a mat o'r wyddor ar ffurf jig-so sbwng i elusen yn y Drenewydd, o'r enw Canolfan Argyfwng Teulu Maldwyn. Ar ôl cyflwyno'r rhoddion, cawsom lythyr hyfryd o ddiolch gan yr elusen i ddweud eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i'r teuluoedd agored i niwed y mae'r elusen yn eu cynorthwyo.



Mae'r Ganolfan yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy ac yn helpu i gynorthwyo dynion, menywod a phlant sydd naill ai'n profi camdriniaeth ddomestig neu y mae camdriniaeth ddomestig yn effeithio arnynt yng ngogledd Powys. Yn anffodus, mae'r Ganolfan wedi gweld cynnydd o 70% yn nifer yr atgyfeiriadau ers i'r cyfnodau clo oherwydd Covid ddod i ben. Mae'n dibynnu ar roddion elusennol yn y gymuned. Mae gan y Ganolfan linell argyfwng 24 awr: 01686 629114. Os hoffech ddysgu mwy, ewch i wefan yr elusen, familycrisis.co.uk, i gael cyngor a rhagor o wybodaeth.

canolfan argyfwng teulu maldwyn
LLEIHAU RISG • NEWID BYWYDAU

## Gair i'ch atgoffa i ailgyfeirio eich post pan fyddwch yn symud tŷ

Mae rhai pobl yn credu nad oes angen iddynt ailgyfeirio eu post oherwydd nad ydynt yn cael llawer o lythyrau, ond mae'n bosibl eich bod yn cael mwy o bost nag yr ydych yn ei feddwl. Efallai eich bod yn cael llythyrau gan wasanaethau iechyd am amserau apwyntiadau, neu'n cael negeseuon gan y Cyngor neu adrannau'r Llywodraeth am eich budd-daliadau neu am arian sy'n ddyledus gennych. Gall ambell lythyr fod yn annisgwyl neu'n un nad ydych yn ei gael yn aml, fel llythyr sy'n sôn wrthych am ddyddiad achos llys neu ddirwy. Gall y Post Brenhinol ailgyfeirio eich post am 3, 6 neu 12 mis. Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol neu Gredyd Pensiwn, gallech arbed hyd at 40% ar gost ailgyfeirio post.

# Cystadleuaeth Lluniau o Erddi 2024

Cofiwch gymryd rhan er mwyn cael cyfle i ennill taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio.

Mae cael eich gardd i edrych yn bert yn golygu llawer o ymroddiad a gwaith caled, a byddem yn dwlu gweld eich gerddi hyfryd. Dyma ragrybudd, felly, er mwyn i chi allu dechrau cynllunio eich gwelyau blodau, eich potiau, eich basgedi crog a'ch gerddi llysiau arobryn. Dyw'r dyddiad cau ddim tan 16 Awst, felly does dim brys. Rydym yn gofyn i chi anfon eich lluniau atom eleni eto. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd am dro o amgylch eich gardd gyda'ch camera a rhannu eich lluniau â ni. Gallwch anfon y lluniau atom drwy ebost, neu'u hargraffu a'u hanfon atom drwy'r post. Mae garddio'n wych i'ch iechyd a'ch lles. Mae gardd liwgar a diddorol nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth i'ch eiddo chi ond hefyd yn gallu bod o fudd i'r amgylchedd a'r gymuned yr ydych yn byw ynddi. Yn anffodus, dim ond pum ymgais a gawsom y llynedd yn y categori i rai dan 16 oed, sy'n nifer fach iawn, a hoffem weld beth y mae ein tenantiaid iau'n ei wneud yn eu gerddi.

Ydych chi wedi creu gwesty i bryfed? Ydych chi wedi plannu rhai blodau gwyllt? Ydych chi wedi darparu cartref diogel yn eich gardd i ddenu bywyd gwyllt? Efallai eich bod hyd yn oed wedi tynnu rhai lluniau o'r bywyd gwyllt sy'n ymweld â'ch gardd! Anfonwch nhw atom; byddem wrth ein bodd yn eu gweld! Bydd enillydd pob categori'n cael taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn rhifyn yn y dyfodol o Newyddion Barcud.

Dyma'r categorïau:

1. ***Arddangosfa flodau orau (gardd breifat)***
2. ***Basged grog, llestr blodau neu flwch ffenestr gorau***
3. ***Gardd lysiau orau***
4. ***Arddangosfa flodau orau mewn llestr anarferol***
5. ***Nodwedd orau sy'n garedig i bryfed neu'r amgylchedd/ bywyd gwyllt mewn gardd (i rai dan 16 oed)***
6. ***Gardd orau mewn cynllun tai gwarchod***
7. ***Gardd gymunedol orau (nad yw mewn cynllun)***

Anfonwch lun o'ch ymgais chi, gan nodi'n glir rif y categori yr ydych am gystadlu ynddo, yn ogystal â'ch enw a'ch cyfeiriad yn llawn. At ddibenion dilysu, rhaid eich bod chi yn y llun gyda'ch ymgais. Mae'r telerau a'r amodau i'w gweld ar ein gwefan: barcud.cymru. Dylech anfon eich lluniau i'r cyfeiriad canlynol: Cystadleuaeth Arddio 2023 At sylw: Alisa Cakebread, Barcud, Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL neu drwy ebost at Alisa. Cakebread@barcud.cymru Y dyddiad cau ar gyfer derbyn lluniau yw dydd Gwener 16 Awst 2024.

## Cadwch y Dyddiad

**Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Cyswllt y Tenantiaid yn cael ei gynnal ddydd Mercher 19 Mehefin am 11am yn Hafan yr Afon, Y Drenewydd, SY16 2NZ**

**Beth am i chi ddod draw i gwrdd â Phrif Weithredwr newydd Barcud?**

**I archebu eich lle ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â Barcud ar 0300 111 3030**

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ms Shaw, tenant o Aberystwyth, y cafodd ei henw ei dynnu o blith yr holl ymatebion i'r holiadur am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a ddosbarthwyd gyda'r rhifyn diwethaf o Newyddion Barcud. O ganlyniad i'w hymateb, enillodd daleb yn y gystadleuaeth am ddim i ennill gwobr. Diolch am ymateb. Rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwynhau gwario eich taleb!

# Codiadau Rhent 2024/2025

Bydd y tenantiaid i gyd wedi cael eu hysbysiadau blynyddol am godiadau rhent ym mis Ebrill 2024. Mae Polisi Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio codiadau rhent cymdeithasau tai. Ar gyfer 2024/25, y cynnydd blynyddol uchaf yn gyffredinol oedd 6.7%, yn unol â ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi. Nid yw pob tenant yn gweld cynnydd ar sail yr un %. Bob blwyddyn, mae'r Gymdeithas yn pennu rhent meincnod fforddiadwy ar gyfer pob math o eiddo, a chaiff rhenti eu cynyddu tuag at y rhent meincnod hwnnw ond o fewn y polisi rhenti. Bydd y cynnydd, felly, yn dibynnu ar y lefel y codwyd rhent arnoch yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac yn unigol gallai'r cynnydd hwnnw fod yn fwy na 6.7%.

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

Mae Barcud wedi ymrwymo i egwyddorion fforddiadwyedd Cartrefi Cymunedol Cymru (sef y corff sy'n cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru) ar gyfer y sector cyfan:

- ✓ Fforddiadwy: Byddwn yn ystyried incwm a chyfanswm costau rhentu cartrefi er mwyn deall beth sy'n fforddiadwy ar gyfer ein tenantiaid, ac yn sicrhau bod tenantiaid yn cael y cyfle gorau i gynnal eu tenantiaethau a ffynnu.
- ✓ Cynaliadwy: Byddwn yn pennu rhenti sy'n ein galluogi i barhau i ddarparu cartrefi diogel a chynnes o safon ar gyfer y bobl mae arnynt eu hangen yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.
- ✓ Cynnwys: Byddwn yn cynnwys tenantiaid er mwyn datblygu ac adolygu ein dull o bennu rhenti, a llywio ein penderfyniadau ar renti.
- ✓ Teg: Byddwn yn gweithio i sicrhau bod rhenti a thaliadau eraill yn cael eu pennu'n deg a bod ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnig gwerth am arian.
- ✓ Atebol: Byddwn yn agored, yn dryloyw ac yn atebol pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ar renti.


Rydym hefyd yn cymharu'r rhenti meincnod â rhenti yn y sector preifat, fel ffordd arall o wirio fforddiadwyedd, ac rydym yn defnyddio arolygon i ymgysylltu â'n grŵp monitro i denantiaid ac â thenantiaid yn ehangach yn rhan o'r broses o bennu rhenti. Yn ein harolwg diweddaraf o denantiaid, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023, roedd 87.5% o'r tenantiaid o'r farn bod y rhent a godir gan Barcud yn cynrychioli gwerth am arian.

Mae'r cynnydd mewn costau byw yn her i bawb, ac nid yw sefyllfa Barcud yn wahanol. Rydym wedi gweld prisiau'n cynyddu yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae ein cydweithwyr yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni gwaith atgyweirio'n brydlon ac i flaenoriaethu ble'r ydym yn gwario arian ar welliannau. Rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd rhent a'r angen i gynnal a chadw a gwneud gwelliannau. Caiff yr holl rent a gawn ei ailfuddsoddi yn y gwaith o redeg Barcud a gofalu am eich cartrefi. Byddai cyflwyno codiadau rhent llai wedi arwain at oedi wrth gyflawni gwelliannau arfaethedig ac wedi arwain efallai at dorri gwasanaethau. Nid yw'r cyfrifoldeb hwn wedi'i gyfyngu i ddarparu llety o safon y mae tenantiaid yn falch ei fod yn gartref iddynt; mae hefyd yn cynnwys dyletswydd arnom i ymddwyn yn gyfrifol yn ariannol. Yn y bôn, mae hynny'n golygu gwneud defnydd doeth o'r arian a gawn o renti, a gwneud yn siŵr bod y Gymdeithas yn parhau'n sefydliad cryf a hyfyw.

Os ydych yn poeni am eich materion ariannol, cofiwch fod cymorth ar gael i chi. Mae Cynnal, ein tîm cynnal tenantiaethau, ar gael i'ch helpu – gallwch gysylltu â'r tîm drwy ebost:
post@barcud.cymru
neu dros y ffôn
0300 111 3030



# Digwyddiadau Croeso



Yn ddiweddar, cynhaliodd Barcud ddau ddigwyddiad Croeso - ym Mhowys a Cheredigion - i groesawu tenantiaid i'w cartrefi newydd. Cafodd trefniadau ymrwymo eu cwblhau'n sydyn, ac mae teuluoedd yn ymgartrefu'n awr yn y cymunedau dan sylw yn Nhrefaldwyn ac Aberteifi.

Dyma ddau ddyfyniad gan gynghorwyr tref yn Aberteifi:

"Cafodd pob un o'r cynghorwyr tref eu gwahodd gan Barcud i ymweld â'r tai newydd yn Heol Dinbych-y-pysgod. Mae'r cartrefi o safon uchel iawn, ac rwy'n siŵr y bydd y preswylwyr newydd yn hapus iawn yno."

"Mae'r tai newydd sydd gan Barcud yn Heol Dinbych-y-pysgod yn dai gwirioneddol braf. Bu Barcud yn garedig iawn yn trefnu'r daith ar gyfer y cynghorwyr."



## Clychau Drysau Fideo

Mae clychau drysau fideo'n ymddangos yn bethau cyfleus iawn, ond mae'n hollbwysig cydnabod y pryderon y maent yn gallu eu hachosi am breifatrwydd. Er eu bod yn cynnig manteision o ran diogelwch, gallant recordio a storio delweddau o stepen eich drws ac o ardaloedd cyfagos hefyd. Mae'n hanfodol ystyried beth y mae'r dyfeisiau hyn yn eu recordio, oherwydd gallent heb yn wybod i chi recordio gwybodaeth sensitif neu eiliadau nad ydych am iddynt gael eu cofnodi.

At hynny, gallai'r delweddau fynd i'r dwylo anghywir os nad oes gennych fesurau diogelwch priodol, gan beryglu eich preifatrwydd a'ch diogelwch.

Mae'n hanfodol bod yn ofalus, felly, ac ystyried goblygiadau gosod clychau drysau fideo, gan sicrhau eich bod yn rhoi blaenoriaeth i breifatrwydd a'ch bod yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiogelu delweddau a'ch gwybodaeth bersonol.

## Gweithio i Barcud

**Ydych chi'n chwilio am yrfa sy'n rhoi boddhad, lle gallwch wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl? Rydym bob amser yn chwilio am unigolion brwdfrydig i ymuno â'n tîm i ddechrau ar siwrnai a fydd yn rhoi boddhad iddynt yn y sector tai. O swyddi mewn swyddfa i swyddi ar gyfer crefftwyr, mae'r holl rolau amrywiol yn cynnig cyfleoedd i gynorthwyo'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt ar draws y rhanbarth.**

**Caiff manylion pob swydd eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol; mae mwy o wybodaeth i'w gweld ar wefan Barcud.**

## Adrodd am Atgyweiriad

0300 111 3030

Gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith arferol (ar ôl 5pm ac ar benwythnosau)

Ar gyfer ARGYFYNGAU YN UNIG.

Ni all y tîm sy'n ymateb i argyfyngau y tu allan i oriau gwaith arferol weld gwybodaeth gyffredinol am eich contract/tenantiaeth.

Dylech gadw unrhyw ymholiadau am waith atgyweirio sydd wedi'i drefnu, neu geisiadau nad ydynt yn rhai brys am wybodaeth, ar gyfer ein tîm gwasanaethau i gwsmeriaid yn ystod oriau swyddfa. Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am tan 5pm.

# Parch

Yn Barcud, rydym yn credu mewn meithrin diwylliant o garedigrwydd a pharch bob amser wrth ryngweithio, yn enwedig wrth gyfathrebu â'n cynrychiolwyr gwasanaethau i gwsmeriaid dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae pob aelod o'r tîm wedi ymrwymo i ddarparu'r cymorth gorau posibl, ac mae eich cydweithrediad a'ch caredigrwydd chi'n cyfrannu'n sylweddol i effeithiolrwydd ein gwasanaethau. Cofiwch, y tu ôl i bob galwad neu achos o ryngweithio mae unigolyn ymroddedig sy'n ymdrechu i'ch cynorthwyo yn brydlon ac yn effeithlon. Drwy ddewis bod yn gwrtais a dangos parch, rydych yn gwneud y profiad yn fwy dymunol i chi ac yn creu amgylchedd cadarnhaol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Gadewch i ni gydweithio â'n gilydd i feithrin cymuned sy'n seiliedig ar empathi a dealltwriaeth.

## Dyddiadau'r Fforwm Cynlluniau Tai Gwarchod ar gyfer 2024

***17 Mai***

***19 Gorffennaf***

***20 Medi***

***15 Tachwedd***

Mae'r Fforwm Cynllun Gwarchod yn agored i denantiaid Barcud sy'n byw yn unrhyw un o'r Cynlluniau Gwarchod. Fe'i cynhelir ym Mhenrodyn, Aberaeron a darperir cludiant i ac o'r lleoliad. Beth am ddod draw ar gyfer y digwyddiadau cymdeithasol anffurfiol hyn, cwrdd â ffrindiau newydd a chymdeithasu mewn awyrgylch cartrefol.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 111 3030

## Grant Cymunedau Gofalgar Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion 2023/24

### *Cynllun Tai Gwarchod Llys Pedr*


Mae cais Clwb Garddio Tyfu Llys Pedr i Gynllun Grantiau Cymunedau Gofalgar Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus. Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf bydd Kim Stoddart, hyfforddwr a dylunydd gerddi lleol, yn cynnal cyfres o chwe gweithdy garddio dan do bob wythnos yn y lolfa gyffredin yn Llys Pedr. Bydd y gweithdai'n agored i unrhyw un sydd dros 55 oed.

Gyda'r Grŵp Young at Heart, sydd hefyd yn Llanbedr Pont Steffan, bydd y Clwb yn tyfu planhigion i'w rhoi mewn llestri planhigion y tu allan i Lys Pedr.

Kim fu'n dylunio gerddi Creuddyn ar gyfer Barcud, ac mae'n cynnal cyrsiau ar gyfer y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ymhlith eraill.

Mae sesiynau garddio blaenorol Kim wedi bod yn hel atgofion cadarnhaol am arddio a gerddi, y gellir adeiladu arnynt â chyfres arall o weithdai.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Tess Price ar 01570 422947









# Cadw'n Ddiogel Gyda Dŵr

**Gall systemau dŵr poeth a dŵr oer domestig ddarparu amgylchedd lle gall bacteria Legionella dyfu.**

## *Beth y gallwch chi ei wneud i helpu?*

Sicrhewch fod y dŵr poeth yn eich cartref yn parhau'n boeth.
Sicrhewch fod y dŵr oer yn parhau'n oer.
Sicrhewch fod pob tap dŵr a chawod yn cael eu defnyddio'n aml.
Mae'n bwysig nad ydych yn newid y gosodiadau ar eich boeler na'ch system dŵr poeth.
Rhowch wybod i Dîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid Barcud (0300 111 3030) os nad yw eich boeler neu'ch tanciau dŵr poeth yn gweithio'n iawn, yn enwedig os nad yw'r dŵr yn dod allan o'r tapiau ar dymheredd sy'n ddigon uchel. Dylai ddod allan ar dymheredd o 50°C pan fydd wedi bod yn rhedeg am gyfnod priodol.

## *Cawodydd*



Os nad yw cawodydd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, fflysiwch nhw drwy adael i'r dŵr redeg am o leiaf ddwy funud bob wythnos. Arhoswch mor bell ag sy'n bosibl oddi wrthynt tra bydd hynny'n cael ei wneud.

Glanhewch ben y gawod yn gyson, a chofiwch gael gwared ar unrhyw gen sydd arno a'i ddiheintio. Dylech wneud hynny o leiaf bob chwe mis.

## *Casgenni Dŵr*



Gall casgenni dŵr fod yn fan lle mae Legionella yn tyfu hefyd. Mae'n bosibl y bydd y dŵr sydd yn y casgenni wedi bod yn llonydd am fisoedd. Ni ddylech fyth ddefnyddio'r dŵr hwn gyda phibell ddŵr na'i ddefnyddio i lenwi pyllau padlo. Dylech ei ddefnyddio'n hytrach i ddyfrhau planhigion.

I'w ddefnyddio'n ddiogel, dylai'r dŵr gael ei arllwys yn araf i mewn i gan dyfrhau (heb y top sy'n creu effaith dŵr glaw).



# Arolwg am Waith Atgyweirio

Llongyfarchiadau mawr i Mr a Mrs Eddy o Lanfyllin a enillodd daleb gwerth £50 gan Barcud yn ddiweddar. Caiff pob tenant sy'n dychwelyd ffurflen ynghylch bodlonrwydd â gwaith atgyweirio gyfle i fod yn rhan o gystadleuaeth am ddim i ennill gwobr, a chaiff enwau'r buddugwyr eu tynnu ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfod i denantiaid. Cofiwch anfon eich ffurflen atom, felly, oherwydd mae eich adborth yn ein helpu i wella ein gwasanaeth.

# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

## Cam 1: wedi'i gwblhau!

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, roedd pob tenant â thenantiaeth a ddechreuodd cyn mis Rhagfyr 2022 wedi cael eu Contract Meddiannaeth Diogel wedi'i Drosi dan y Deddf Rhentu Cartrefi erbyn mis Mehefin 2023, ac mae tenantiaid newydd yn cael y fersiwn a ddiweddarwyd. Trosodd Barcud dros 60 o wahanol fathau o denantiaethau, ac erbyn hyn mae gennym 20 fersiwn amrywiol o'r contract meddiannaeth diogel. Gan mai nod y Ddeddf yw safoni gwahanol fathau o denantiaethau, rydym wedi penderfynu gostwng y nifer ymhellach.

Felly mae'n bryd cychwyn

## Cam 2: symleiddio!

Rydym am i bob tenant gael yr un contract, a byddwn yn sicrhau bod hynny'n digwydd drwy ymarfer Ymgynghori ac Amrywio. Rydym yn gobeithio, erbyn haf 2024, y byddwch yn cael Hysbysiad Rhagarweiniol gan Barcud sy'n amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'ch contract ac sy'n eich gwahodd i roi adborth cyn pen 28 diwrnod. Byddwn yn ystyried eich sylwadau, ac yna yn ystod

## Cam 3:

byddwn yn rhoi Hysbysiad Amrywio, a bydd y contract newydd yn dod i rym cyn pen mis.

# "Dyma Ddywedoch Chi, Dyma Wnaethom Ni"...

Rydym yn croesawu pob adborth gan ein tenantiaid a'n cwsmeriaid, ac rydym yn ei ddefnyddio i wneud gwelliannau a chynyddu effeithlonrwydd ein gwasanaethau.

Isod, fe welwch chi rai o'r ffyrdd yr ydych wedi ein helpu i wella:

- ✓ Sicrhau bod unrhyw waith atgyweirio dilynol (ar ôl gwaith atgyweirio dros dro) yn cael ei gyflawni'n brydlon
- ✓ Sicrhau bod dyddiad llythyrau mor agos ag sy'n bosibl i'r dyddiad y cânt eu hanfon
- ✓ Sicrhau y defnyddir y fersiwn diweddaraf o unrhyw bolisi a gaiff ei ddosbarthu i'r tenantiaid neu unrhyw bolisi a gaiff ei ddefnyddio i wneud penderfyniad am ddarparu gwasanaeth
- ✓ Sicrhau bod contractwyr sy'n gweithio ar eiddo gwag yn cael eu hatgoffa i roi unrhyw bost o'r neilltu er mwyn i Swyddogion Barcud benderfynu a ellir dychwelyd y post i'r sawl a'i hanfonodd.
- ✓ Deall, os na ellir datrys problem cyn pen cyfnod rhesymol ac os nad yw'r deiliad contract yn hapus o hyd, y dylai eu pryderon gael eu huwchgyfeirio a throi'n gŵyn Cam 1

Hoffem ddiolch i chi am eich mewnbwn.

# Cyllid Cymunedol y Loteri Genedlaethol

## *Clwb Cymdeithasol Llys Pedr*

HERITAGE FUND

Roeddem wrth ein bodd ym mis Chwefror 2022 pan gafodd aelodau Clwb Cymdeithasol Llys Pedr wybod bod eu cais i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am grant wedi bod yn llwyddiannus. Gwnaeth y grant hi'n bosibl iddynt drefnu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau yr oedd modd eu mwynhau gyda pherthnasau, ffrindiau a grwpiau cymdeithasol eraill yn yr ardal leol. Mae'r cyllid hwn wedi bod o fudd mawr i'r tenantiaid ac i bobl eraill yn y gymuned, sy'n dod ynghyd i wella cysylltiadau cymdeithasol ac i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Rydym wedi ymuno ag ysgolion a grwpiau lleol, ac rydym yn bwriadu creu cysylltiadau pellach â nhw drwy drefnu gweithgareddau lle gall tenantiaid a theuluoedd gwrdd a chydweithio ar brosiectau eraill yn y dyfodol.